Heol Clare - Stryd Pendyris

Cardiff Evolving Transport

Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu cynigion ar gyfer gwelliannau wrth gyffordd Heol Clare / Court Road a Stryd Pendyris.

Mae pryderon wedi'u mynegi ynghylch:

- traffig trwodd (llwybr llygod) ar hyd Stryd Pendyris ac Arglawdd Dôl Afon Taf;
- gweithrediad Cyffordd Heol Clare / Court Road / Stryd Pendyris
- symudiadau a diogelwch cerddwyr a beicwyr; a
- llwybrau trwodd i fysus.

Nod y cynigion hyn yw:

- gwella hygyrchedd ac annog mwy o gerdded a beicio;
- lleihau traffig trwodd ar Stryd Pendyris ac Arglawdd Dôl Afon Taf;
- lleihau nifer y damweiniau ffordd a'i gwneud yn haws ac yn fwy diogel i feicwyr a cherddwyr ddefnyddio'r gyffordd; a
- gwella effeithlonrwydd y gyffordd.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

Uwchraddio'r groesfan sebra bresennol yn groesfan Twcan - a fydd yn gwella mynediad a diogelwch cerddwyr a beicwyr wrth y cyffyrdd, tra'n gwella llif traffig ar hyd Heol Clare.

Bydd arwyneb a rennir ar gyfer cerddwyr a beicwyr yno a all gynnwys gwelliannau i'r ardal gyhoeddus, gan gynnwys planhigion, draeniau, ardal feicio wrthlif drwy'r system unffordd a mannau parcio beiciau ychwanegol.

Mae ffordd fynediad unffordd i Stryd Pendyris o Heol Clare yn lleihau nifer y symudiadau troi a'r cyfle i draffig fynd i mewn i Stryd Pendyris; gan wneud i'r gyffordd weithredu'n gliriach ac yn fwy effeithlon. Bydd gwneud i'r gyffordd weithredu'n fwy effeithlon yn helpu bysiau gyda'u hamseroedd teithio ar hyd Heol Clare.

Adolygir y gwaharddiad ar droi i'r dde o Heol Clare i Stryd Pendyris fel rhan o'r cynllun hwn. Er mwyn galluogi gwaith rheoli digwyddiadau, gall y cynllun gynnwys mesurau i ganiatáu i fysiau neu goetsis barhau i droi i'r dde yn ystod digwyddiadau. Ar y sail hon, gallai'r dyluniad a ddangosir newid i ganiatáu'r symudiadau hyn.

Hoffem wybod eich barn ar y cynnig hwn, a sut rydych yn teimlo y gellid rheoli traffig, gan ein bod yn deall y gallai gweithredu'r newidiadau hyn newid patrymau teithio defnyddwyr a'r modd y bydd traffig yn symud o amgylch yr ardal.

Heol Clare - Stryd Pendyris

Cardiff Evolving Transport

Gorsaf barcio NextBike ychwanegol

Ailddyrannu mannau parcio



Croesfan sebra bresennol wedi'i newid yn groesfan twcan

Pwynt mynediad beics gwrthlif a gwelliannau i'r gyffordd

Dim troi i'r dde (ac eithrio ar gyfer rheoli digwyddiad)

Newid Stryd Pendyris i drefn unffordd (tua'r dwyrain) rhwng Heol Clare a Mardy Street.

Mae'r lliwiau at ddibenion eglurhaol yn unig

Cwestiynau Cyffredin

Cardiff Evolving Transport

Pam na ellir defnyddio'r arian i lenwi ceudyllau? Mae'r Cyngor yn derbyn arian ar wahân i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw.

A fydd system unffordd ar Stryd Pendyris ar ei hyd? Na fydd. Dim ond rhwng Heol Clare a Mardy Road.

A fydd mannau parcio'n cael eu colli? Ar hyn o bryd, efallai y bydd angen ail-leoli ychydig o fannau parcio Talu ac Arddangos er mwyn gweithredu'r newidiadau ar Stryd Pendyris. Byddwn hefyd yn cynnig newid y croesfannau diangen sy'n gyfagos i'r Tramshed yn fannau Talu ac Arddangos. Fodd bynnag, efallai y bydd angen symud rhai mannau Talu ac Arddangos er mwyn gweithredu'r lôn feicio wrth-lif.

Faint o draffig trwodd sydd? Yn ôl data Cyn Covid19, traffig trwodd oedd 90% o'r traffig a oedd yn teithio tua'r de a 44% o'r traffig a oedd yn teithio tua'r gogledd, o'i gymharu â thua 77% a 43%, yn ystod amseroedd prysuraf y bore a'r prynhawn yn y drefn honno.

A ellir cyflwyno mesurau eraill i atal neu leihau traffig trwodd? Gellir. Gallai mesurau eraill gynnwys cau ffyrdd a mesurau arafu traffig. Gellid ystyried Gorchmynion Rheoli Traffig hefyd, ond gall Gorchmynion Rheoli Traffig effeithio ar fannau parcio Talu ac Arddangos, neu sut, ble a phryd y gellir dosbarthu nwyddau.

Beth am draffig yn teithio o amgylch y rhwydwaith? Gwneir newidiadau sylweddol i ganol y Ddinas a'r Ddinas yn gyffredinol yn y dyfodol, yn enwedig hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy. Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysiau a Choridorau Clyfar i reoli llif traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd.

A fydd tacsis yn dal i allu cael mynediad i'r Tramshed? Byddant.

A allai bysiau weithredu ar hyd Stryd Pendyris / Arglawdd Dôl Afon Taf? Gallent. Byddai'r gyffordd yn cael ei chynllunio fel y gallai bysus a cherbydau sbwriel gael mynediad i'r ffordd.

Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio? Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella safleoedd bysiau, llwybrau bysiau a beicffyrdd yn hanfodol i'r cynllun hwn.

Beth allai ddigwydd yn ystod digwyddiadau? Yn rhan o waith rheoli traffig yn ystod digwyddiadau, efallai y bydd angen i ni ddargyfeirio bysiau neu goetsis ar hyd Stryd Pendyris. Felly, efallai y byddwn yn caniatáu i fysiau a choetsis droi i'r dde o Heol Clare drwy gynnwys bolardiau y gellir eu tynnu a mannau tros-redeg.

Beth sy'n digwydd nesaf? Byddwn yn adolygu'r holl adborth a dderbynnir i benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau i'r cynnig. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael ar-lein yn y dyfodol agos. Ar ôl hyn, bydd y prosiect yn cael ei ddylunio'n fanwl a'i weithredu, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian. Bydd angen ymgynghoriad ar wahân ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cyfyngiadau parcio presennol, neu ar gyfer gweithredu Gorchmynion Rheoli Traffig newydd. Mae hyn oherwydd y broses gyfreithiol o wneud Gorchmynion o'r fath.

Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg hon: https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=163854447823

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
Neu e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk
neu ysgrifennwch i'r Tîm Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell Neuadd y Sir 301, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 31/12/2021

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar-lein pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau' a dewis teitl y cynllun.

Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn fydd yn cael eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk